Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Rhychwantu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
Crynodeb Annhechnegol
Medi 2023

Ar ran **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyf. y Prosiect: 43894 | Diw: A| Dyddiad: Awst 2020

Cyfeiriad y Swyddfa: 5th Floor, Lomond House, 9 George Square, Glasgow, G2 1QQ
T: +44 (0)141 352 2360 E: info.glasgow@stantec.com

Cynnwys

1 Cyflwyniad 4
2 Adroddiad Rhychwantu 5
3 Yr Ymatebion Cwmpasu a'r Camau Nesaf 11
Atodiad A – Fframwaith ACI Manwl 12

1 Cyflwyniad

1.1 Y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

1.1.1 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) wedi dechrau paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Bydd y CDLl amnewid (CDLlA), a ddatblygir gyda'r gymuned leol a rhanddeiliaid, yn cyflwyno Gweledigaeth ar gyfer sut y disgwylir i'r ardal newid o ran defnydd tir. Bydd yn darparu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r prif faterion cynaliadwyedd ac adfywio, ac yn helpu i gyflawni cyfleoedd datblygu. Trwy ddangos sut a ble bydd datblygu'n digwydd, gyda mapiau clir o'r cynigion, bydd yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynghylch y math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliadau penodol. Bydd yn cwmpasu ystod eang o bynciau, gan gynnwys tir ar gyfer tai, datblygu economaidd, adfywio, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, canol trefi, twristiaeth, darparu seilwaith a thrafnidiaeth, ond heb ei gyfyngu i'r rheiny.

1.1.2 Y dyddiad y disgwylir i'r Cynllyn Amnewid gael ei fabwysiadu yw Ebrill 2023. Bydd y Cynllun yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd (2023 – 2038).

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

1.1.3 O ystyried pwysigrwydd y CDLlA wrth ffurfio'r ardal, mae'n hanfodol, wrth gynhyrchu'r CDLlA, ystyried ei effeithiau posibl ar bobl Castell-nedd Port Talbot (CNPT), eu llesiant, a'r amgylchedd. Cynhelir ystod o asesiadau ategol i sicrhau hyn.

- **Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** o effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl y Cynllun.
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** i asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol rhoi cynlluniau a rhaglenni perthnasol ar waith ac archwilio effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol dewisiadau amgen rhesymol i'r cynllun.
- Dangos sut bydd y Cynllun yn cyflawni datblygu cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn sicrhau nodau ac amcanion cenedlaethol a lleol yn unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.
- **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA).** Bydd hyn yn cyflawni gofynion statudol er mwyn osgoi camwahaniaethu ac yn asesu'r effeithiau tebygol ar gydraddoldeb.
- **Asesiad Effaith ar Iechyd (HIA).** Mae'r AAS a'r EqIA fel ei gilydd yn ystyried effeithiau iechyd yn rhannol, ond mae'r HIA yn dod â'r rhain ynghyd i sicrhau bod y CDLlA yn cefnogi deilliannau iechyd gwell yn y ffordd orau yn yr ardal.
- **Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (WLIA)**, i ystyried sut gallai'r CDLlA effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ardal.

1.1.4 Mae'r rhain i gyd yn offer a fydd yn caniatáu asesiad gwrthrychol, seiliedig ar dystiolaeth o effeithiau'r CDLlA. Bydd cyfuno'r rhain i greu un **Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)** yn golygu bod modd cynnal asesiad cliriach, mwy hygyrch a mwy cyflawn o'r CDLlA..

2 Adroddiad Rhychwantu

2.1.1 Yr Adroddiad Rhychwantu yw'r ddogfen gyntaf i gael ei chynhyrchu ar gyfer yr ACI. Mae'n disgrifio'r sefyllfa bresennol yn ardal CCNPT ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer profi sut bydd CCNPT yn cyflawni datblygu cynaliadwy trwy gyfnodau paratoi'r CDLlA yn y dyfodol. Bydd y cyfnod Rhychwantu yn:

- Nodi dogfennau polisi eraill perthnasol er mwyn sicrhau bod y CDLlA yn cyd-fynd â chyd-destun polisi cyfredol rhyngwladol, llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol
- Disgrifio sefyllfa amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Castell-nedd Port Talbot
- Trafod materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd allweddol sy'n effeithio ar Gastell-nedd Port Talbot
- Cyflwyno'r amcanion a'r dangosyddion a ddefnyddir i brofi effeithiau'r CDLlA

Policy Context

2.1.2 Bydd angen i'r CDLlA roi sylw i ystod o Ddeddfau, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol newydd sydd wedi codi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ers i'r CDLl cyfredol gael ei fabwysiadu.

- Yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod argyfwng o ran yr hinsawdd a byd natur. Mae angen gweithredu ar frys i ymdrin â cholli rhywogaethau a chynefinoedd a'r cynnydd mewn stormydd a llifogydd sy'n bygwth cymunedau. Mae targedau newydd wedi gofyn bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gostwng 95% erbyn 2050, a'r uchelgais yw cyrraedd sero net. Mae deddfwriaeth amgylcheddol ehangach yn parhau i osod targedau ar gyfer ansawdd dŵr, ailgylchu gwastraff, amddiffyn cadwraeth natur a phynciau eraill.
- Mae'r niwed economaidd a chymdeithasol a achoswyd gan bandemig Covid-19 ac effeithiau parhaus proses Brexit wedi newid cyd-destun paratoi'r CDLlA. Bydd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru (2019), Cymru'r Dyfodol Y Cynllun Cenedlaethol (2040); Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD); a dynodi Parth Menter y Glannau ym Mhort Talbot a gwaith Tasglu'r Cymoedd i gyd yn dylanwadu ar y CDLlA. Nod y rhain yw cyflawni twf cryfach a mwy cynhwysol nag a brofwyd yn ystod cyfnod y CDLl presennol.
- Mae Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru (11fed Argraffiad) yn awr yn cyflwyno egwyddorion ar gyfer adeiladu lleoedd gwell i bobl trwy gymdeithas gydnerth, garbon isel, gan ddarparu swyddi diogel am gyflog da, ac adeiladu amgylcheddau iachach sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae'n rhaid i'r CDLlA roi sylw i'r amcanion llesiant a geir yn Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot (2023-2028): Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; sicrhau bod pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy; Sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r amgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol; a sicrhau bod mwy o swyddi diogel, gwyrdd sy'n talu'n dda a bod sgiliau ar draws yr ardal yn cael eu gwella.
- Bydd yr ACI yn dangos sut mae'r amcanion a'r polisïau cynaliadwyedd hyn wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r CDLlA.

Y sefyllfa amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd ac anawsterau

2.1.3 Mae Adran 4 ac Atodiad A o'r Adroddiad Rhychwantu yn cyfuno gwybodaeth am sefyllfa amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd CNPT trwy ddefnyddio ystod o ddangosyddion.

Ffactorau Amgylcheddol

2.1.4 Gwelwyd peth gostyngiad yn allyriadau CO_2 Cymru rhwng 1990 a 2018. Yng Nghymru, y sector sy'n allyrru fwyaf, o bell ffordd, yw busnes a diwydiant. Cyfanswm allyriadau CO_2 CNPT yw'r uchaf yng Nghymru, a rhai o'r uchaf yn y Deyrnas Unedig, yn bennaf oherwydd gwaith dur integredig Port Talbot. Y gwaith hwn yw'r mwyaf yn y Deyrnas Unedig, mae'n ased diwydiannol cenedlaethol, ac yn gyflogwr rhanbarthol. Mae'r allyriadau y pen oddi mewn i gwmpas yr awdurdod lleol yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol. Nodir mai CNPT sydd â'r lefel uchaf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

2.1.5 Mae CNPT yn gartref i nifer o safleoedd a ddynodwyd ar lefel rhyngwladol, genedlaethol a lleol oherwydd cadwraeth a gwerth bioamrywiaeth. Mae yno hefyd ardaloedd heb eu dynodi sy'n cynnwys ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau sydd â swyddogaethau a rolau pwysig. Er i ni weld rhai gwelliannau, at ei gilydd mae colli bioamrywiaeth yn parhau yn CNPT a De-orllewin Cymru.

2.1.6 Mae'r pwysau ar fioamrywiaeth yn cynnwys newidiadau i ddefnydd tir a newid yn yr hinsawdd. Mae sawl un o gyrff dŵr CNPT mewn perygl o gynnwys dŵr o ansawdd gwael, yn bennaf oherwydd gweithgarwch ac effeithiau amaethyddol, cyfleustodau a diwydiannol. Mae ardaloedd eang o dir gwag ac adfeiliedig a halogwyd, yn ogystal â thir ansefydlog. Mae'r materion hyn yn aml yn gysylltiedig ag etifeddiaeth diwydiant trwm yn yr ardal. Mae perygl llifogydd yn broblem barhaus oherwydd lleoliad arfordirol CNPT a'i gymoedd. Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn golygu glawiad mwy dwys, mwy o lifogydd, a hefyd hafau mwy sych a phoeth. Rhagwelir hefyd y bydd mwy o ddiwrnodau eithriadol o gynnes, a gaeafau mwynach a gwlypach. Bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar bobl, eu cartrefi a'u cymunedau, ac yn rhoi pwysau ar seilwaith carthffosiaeth a draenio presennol a seilwaith trafnidiaeth. Mae'n rhaid i ansawdd aer wella, mae un Ardal Rheoli Ansawdd Aer yng nghanol ardal ddiwydiannol CNPT ar goridor yr M4. Mae'r amrywiaeth a'r tirlun trawiadol yn rhan bwysig o dreftadaeth naturiol a diwylliannol CNPT, ac mae angen diogelu hynny rhag datblygu amhriodol.

Ffactorau Cymdeithasol ac Economaidd

2.1.7 Disgwylir i boblogaeth CNPT godi i 144,238 erbyn 2028 (tua 1%), gyda'r boblogaeth iau yn lleihau, ond y boblogaeth hŷn (65 oed +) yn cynyddu 13%. Bydd hyn yn effeithio ar raddfa a math y tai y mae angen eu darparu yn CNPT. Fel llawer man arall yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, nid yw'r lefel gyffredinol o alw am dai fforddiadwy yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd ar draws CNPT. Mae CCNPT wedi nodi diffyg yn y ddarpariaeth o ran tai gofal ychwanegol a phreswylfeydd llai. Mae hynny'n golygu bod rhaid i CCNPT gael hyd i safleoedd newydd ar gyfer tai yn y CDLlA. Fel gweddill y Deyrnas Unedig, mae'r rhan fwyaf o anghenion tai i gael eu diwallu gan y sector datblygu yn hytrach na'r sector cyhoeddus, ond mae darparu tai marchnad gan y diwydiant datblygu wedi bod yn anodd yn CNPT. Yn ystod y CDLl cyfredol, o dan amgylchiadau anodd, mae'r monitro gan y Cyngor ei hun yn dangos bod y tir a gyflwynwyd ar gyfer tai a datblygu economaidd wedi bod yn siomedig. Mae wedi bod yn anodd denu datblygu i ardaloedd adfywio a ddyrannwyd yn y CDLl, ac ar yr un pryd bu pwysau'n parhau am ddatblygu ar dir sy'n llai cynaliadwy.

2.1.8 Mae'r cyfraddau diweithdra yn agos at gyfartaledd Cymru, ond mae'r incwm gwariadwy fesul aelwyd yn is na'r cyfartaledd, ac mae ardaloedd ag amddifadedd parhaus yn CNPT. Mae'r dwysedd swyddi (nifer y swyddi o gymharu â'r boblogaeth oed gwaith) yn gymharol isel, ac mae hynny'n dangos bod angen parhau i ganolbwyntio ar greu mwy o swyddi yn yr ardal, yn hytrach na bod y trigolion yn gorfod cymudo i'r gwaith. Yn gysylltiedig â hyn, mae gwahaniaethau mawr yn hyd oes disgwyliedig trigolion cefnog a difreintiedig, ac mae gwahaniaethau mawr yn hyd oed disgwyliedig gwrywod a benywod.

2.1.9 Mae angen gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a hybu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus pan fo angen teithio. Bydd newid o ddefnyddio ceir preifat i deithio

llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn creu manteision lluosog amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe yn ganolbwyntiau allweddol i wasanaethau, cyflogaeth, tai a manwerthu ar gyfer y cymunedau o'u hamgylch, a byddant yn parhau yn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau hanfodol a dewisol. Fodd bynnag, mae rôl manwerthu yn newid yn ddramatig ar draws y wlad, ac mae hynny'n cael effaith ar gymeriad a swyddogaeth trefi. Mae angen diogelu'r iaith Gymraeg, y mae 22.6% o boblogaeth breswyl CCNPT yn ei siarad, a gall y system gynllunio chwarae ei rhan i amddiffyn yr iaith. Mae safleoedd hanesyddol niferus ac amrywiol yr ardal yn unigryw, ac ni fyddai modd darparu eraill yn eu lle – mae datblygu amhriodol yn bwysau allweddol ar yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol.

Materion rhyng-gysylltiedig

2.1.10 Mae'r sefyllfa amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd a'r anawsterau yn dangos bod y ffactorau'n rhyng-gysylltiedig yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn thema sy'n croestorri, ac mae'r gwahaniaethau yn iechyd pobl ar draws CNPT yn deillio o ffactorau lluosog. Er enghraifft, mae'r cysylltiad rhwng iechyd a chyflwr a hygyrchedd yr amgylchedd naturiol wedi cael ei gydnabod a'i adlewyrchu yng Nghynllun Llesiant CCNPT. Mae'r CDLlA yn gyfle i gyflawni buddion lluosog trwy reoli'r defnydd o dir a gwella bywydau pobl, cymunedau a'r amgylchedd lleol.

Amcanion a Dangosyddion

2.1.11 Un o allbynnau allweddol yr Adroddiad Rhychwantu yw datblygu fframwaith arfarnu o amcanion a dangosyddion a ddefnyddir i asesu a monitro effeithiau'r CDLlA. Yr enw ar hyn yw'r Fframwaith ACI. Wrth i'r CDLlA ddatblygu, ym mhob cyfnod, bydd y Fframwaith ACI yn Nhabl 1 isod a'i Amcanion ACI yn cael ei ddefnyddio i asesu pob elfen, o Weledigaeth y CDLlA hyd at y polisïau a'r cynigion manwl.

2.1.12 Mae'r Fframwaith ACI a gynigir yn cynnwys 11 o amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i sicrhau bod effeithiau'r CDLlA yn cael eu hasesu'n llawn. Y nod yw darparu dull integredig o gyflawni cynaliadwyedd a llesiant gwell trwy'r CDLlA. Mae'n adlewyrchu natur croestoriadol materion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, cydraddoldeb a iechyd yn ardal CNPT.

2.1.13 Er mwyn deall ymhellach sut bydd y Fframwaith ACI yn cael ei gymhwyso, ceir fersiwn fanylach gyda meini prawf penodol a chwestiynau fydd yn tywys y defnydd a'r cymhwysiad ohono yn Atodiad 1.

Tabl 1: Amcanion ACI Arfaethedig ar gyfer Adolygiad y CDLl

Rhif	Pwnc yr Amcan ACI Arfaethedig	Amcan ACI Arfaethedig
1	Iechyd a Llesiant	Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys yng nghyswllt iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.
2	Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol	Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol, gan gynnwys trwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol.
3	Trafnidiaeth a Chyfathrebu	Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.
4	Twf Economaidd Cynhwysol	Cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysg a sgiliau, ochr yn ochr â mwyafu cyfraniad economaidd ardal CCNPT i Ddinas Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys trwy arallgyfeirio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol.
5	Tai	Darparu cwantwm ac ystod digonol o dai fforddiadwy o safon dda mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd.
6	Ansawdd Aer	Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau llygryddion atmosfferig niweidiol a lleiafu dod i gysylltiad ag aer o ansawdd gwael.
7	Newid yn yr Hinsawdd	Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
8	Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd	Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.
9	Dŵr a Pherygl Llifogydd	Cadw, gwarchod a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr yn ochr â lleihau perygl llifogydd.
10	Deunyddiau a Gwastraff	Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gyda chyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd, a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.
11	Creu Lleoedd Cynaliadwy	Mwyafu defnydd effeithlon o dir a gwella safon dylunio i greu lleoedd gwych i bobl.

Rhif	Pwnc yr Amcan ACI Arfaethedig	Amcan ACI Arfaethedig
12	Treftadaeth Ddiwylliannol (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg)	Cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, gan gynnwys defnydd o'r iaith Gymraeg.
13	Tirlun	Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol, ymdeimlad o le unigryw a sicrhau bod aneddiadau yn ardal CCNPT yn ystyrlon.

Methodoleg

2.1.14 Defnyddir y Fframwaith ACI i asesu holl brif elfennau'r CDLlA, yn ogystal ag unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a nodwyd i'r cynigion hyn. Yn gyffredinol, bydd angen felly i'r ACI gynnwys arfarniadau o weledigaeth CDLlA a gynigiwyd, amcanion y CDLlA, strategaeth ofodol (a strategaethau is-ardaloedd posibl), polisïau strategol, polisïau rheoli datblygu (y polisïau sy'n tywys datblygiad) a dyraniadau safle. Y dull cyffredinol a gynigir ar gyfer ymgymryd ag ACI cymesur ar gyfer pob un o'r elfennau hyn yw:

- Yn achos elfennau lefel uwch o'r CDLlA e.e. Gweledigaeth ac Amcanion y CDLlA, asesiad o gydnawsedd gyda sylwadau ar sut mae'r rhan hon o'r CDLlA yn cydweddu ag Amcanion yr ACI neu beidio
- Yn achos elfennau manwl o'r CDLlA, gan gynnwys polisïau a dyraniadau, asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol ac eraill a nodwyd.

2.1.15 Adroddir am ganfyddiadau'r ACI mewn cyfres o fatricsau asesu, gyda sgoriau asesu a sylwadau a fydd yn:

- Cyfiawnhau sgôr asesu pob polisi neu ddyraniad a aseswyd;
- Nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd yng nghyd-destun y Rheoliadau AAS;
- Nodi unrhyw effeithiau gwahanol neu anghymesur tebygol ar grwpiau demograffig sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai sy'n agored i eithrio cymdeithasol neu dlodi; ac yn,

Nodi unrhyw fesurau lliniaru neu wella y bernir bod angen amdanynt. Diben hynny fyddai naill ai osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd (y byddai disgwyl iddynt ddigwydd fel arall) neu wella perfformiad cynaliadwyedd y CDLlA a'i effeithiolrwydd cyffredinol.

3 Yr Ymatebion Cwmpasu a'r Camau Nesaf

Yr ACI a Chynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot

3.1.1 Mae CCNPT wedi cydnabod gwerth a chyfleoedd defnyddio dull asesu integredig i baratoi Adolygiad CDLl Castell-nedd Port Talbot. Bydd integreiddio'r AC (AAS) ynghyd ag elfennau statudol a rhai allweddol anstatudol o greu'r cynllun, gan gynnwys gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, ac Asesiad Effaith ar Iechyd (HIA) i greu un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn golygu bod modd cynnal asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chyflawn o oblygiadau cynaliadwyedd opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion.

3.1.2 Bydd yr ACI yn cael ei ddefnyddio'n offeryn creu cynllun iterus ym mhob cam o broses Adolygu'r CDLl. Bydd y dull gweithredu hwn yn allweddol i sicrhau bod y materion cynaliadwyedd a nodwyd yn yr Adroddiad Rhychwantu ACI hwn yn derbyn sylw. I gyflawni hyn, mae'r Adroddiad Rhychwantu ACI hwn wedi diffinio Fframwaith ACI arfaethedig (Adran 5) a methodoleg asesu (Adran 6) i'w defnyddio wrth ymgymryd â'r ACI yng nghyswllt y CDLlA.

3.1.3 Mae'r newidiadau i'r Fframwaith a'r fethodoleg ACI arfaethedig bellach wedi'u hymgorffori yn y fersiwn wedi'i diweddaru o Adroddiad Cwmpasu ACI CNPT mewn ymateb i'r ymatebion i Ymgynghoriad Cwmpasu'r ACI a dderbyniwyd gan Cadw (Cangen Hanesyddol Llywodraeth Cymru), Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau, Adnoddau Naturiol. Cymru ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent Cyf. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys mân ddiweddariadau o ran geiriad a pholisi, cwestiynau canllaw ychwanegol arfaethedig yn ffurfio'r Fframwaith ACI arfaethedig (gweler Atodiad A yr NTS hwn) a diweddariadau i'r materion cynaliadwyedd allweddol fel y nodir yn y fersiwn wedi'i diweddaru o Adroddiad Cwmpasu ACI. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i ymgynghoriad pellach ar Adroddiad Cwmpasu ACI CNPT a baratowyd ochr yn ochr â Chytundeb Cyflawni diwygiedig y CDLlA yn 2023.

3.2 Camau Nesaf

3.2.1 Er mwyn galluogi'r ACI hwn i gael ei gynnal mewn modd cymesur ac wedi'i dargedu, bydd Fframwaith ACI yn cael ei ddefnyddio, sy'n cynnwys:

- Amcanion arfaethedig yr ACI (gweler **Tabl 1**);
- Cyfres o Gwestiynau Canllaw perthnasol yn ymwneud â phob Amcan ACI. Mae newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan Gyrff Ymgynghori AAS i'r cwestiynau canllaw wedi'u gwneud ac fe'u nodir yn Atodiad A i'r CA hwn. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio mewn asesiad ansoddol o bob cydran sylweddol o'r CDLl Newydd sy'n dod i'r amlwg, ac unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a nodwyd, i nodi'n gymesur eu Heffeithiau Arwyddocaol Tebygol; a,
- Mae cyfres o ddangosyddion cynaliadwyedd i'w hystyried wrth asesu safleoedd ymgeisiol sy'n cael eu cynnal gan NPTC wedi'u nodi yn yr Adroddiad Cwmpasu. Cynlluniwyd y dangosyddion hyn i arwain NPTC yn y broses asesu safle. Bydd y dangosyddion yn cefnogi Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig sy'n cydymffurfio â'r gyfraith sy'n nodi gofynion asesu effeithiau statudol. Bydd dewis safle integredig a phroses asesu safle ACI yn bosibl drwy'r fframwaith er mwyn osgoi dyblygu asesiadau.

3.2.2 Bydd y cyfnod Galw am Safleoedd yn cychwyn ym mis Tachwedd 2023.

Atodiad A – Fframwaith ACI Manwl

Fframwaith ACI Arfaethedig Adolygiad y CDLI

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
1. Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys o ran iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.	▪ Diogelu a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd? ▪ Lleihau anghydraddoldeb iechyd a gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol cymunedau? ▪ Gwella hygyrchedd llwybrau teithio llesol gwyrdd, mannau agored a chyfleusterau chwaraeon hygyrch o safon uchel, yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb strwythurol a/neu anfantais sosio-economaidd? ▪ Hwyluso neu annog teithio llesol i bob cymuned? ▪ Cynyddu mynediad at fyd natur? ▪ Darparu aer glân a thraethau ymdrochi ac afonydd o safon uchel? ▪ Diogelu rhag llygredd sŵn, gan gyflwyno sainluniau priodol i'r cyd-destun? ▪ Amddiffyn cymunedau rhag risgiau amgylcheddol megis llifogydd gan ddefnyddio atebion o fyd natur? ▪ Diogelu rhag llygredd golau? ▪ Creu cymunedau trefol sy'n cynnwys rhwydwaith seilwaith gwyrdd o safon uchel, â chysylltiadau da?	▪ Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol sydd eisoes yn bodoli ▪ Agosrwydd at Gyfleusterau Iechyd ▪ Agosrwydd Cyfleusterau Iechyd Newydd a/neu Lwybrau Teithio Llesol

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
2. Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.	▪ Lleihau tlodi ac eithrio cymdeithasol? ▪ Arwain at effeithiau gwahaniaethol (llesol neu niweidiol) ar wahanol grwpiau demograffig neu bersonau â nodweddion gwarchodedig? ▪ Arwain at effeithiau gwahaniaethol (llesol neu niweidiol) ar gymunedau (lle neu fudd) sy'n wynebu canlyniadau anghyfartal oherwydd anfantais sosio-economaidd? ▪ Arwain at effeithiau gwahaniaethol (llesol neu niweidiol) ar unigolion sy'n agored i eithrio cymdeithasol neu dlodi? ▪ Darparu gwarchodaeth deg a diduedd rhag peryglon amgylcheddol (fel ansawdd aer, llifogydd)? ▪ Diogelu a gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol o safon uchel, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol, er mwyn ymateb i anghenion amrywiol y gwahanol grwpiau demograffig, aelodau bregus o'r gymuned, a'r rhai sy'n wynebu anfantais sosio-economaidd? ▪ Diogelu a gwella mynediad at adnoddau naturiol, gan gynnwys mannau cyhoeddus glas a gwyrdd o safon uchel? ▪ Helpu i leihau lefelau tlodi incwm absoliwt a chymharol, anghydraddoldeb yn nosbarthiad cyfoeth aelwydydd, a lefelau amddifadedd lluosog sy'n effeithio ar gymunedau? ▪ Hybu cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio? ▪ Lleihau tlodi tanwydd?	▪ Agosrwydd at Gyfleusterau Cymunedol/Wasanaethau Cyhoeddus ▪ Darparu Cyfleusterau/Gwasanaethau Cyhoeddus newydd

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
3. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.	▪ Cynyddu hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd? ▪ Gwella cysylltedd yn ardal CCNPT a hefyd ag ardaloedd eraill? ▪ Lleihau dibyniaeth ar geir ac annog newid i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, gan gynnwys ar gyfer pobl a nwyddau? ▪ Cefnogi mwy o bobl i fanteisio ar deithio llesol trwy ddarparu llwybrau teithio llesol integredig? ▪ Gwella hygyrchedd, capasiti a diogelwch y rhwydwaith trafnidiaeth? ▪ Lleihau llif traffig a thagfeydd? ▪ Gwella safon ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus? ▪ Gwella'r ddarpariaeth o ran seilwaith cyfathrebu o safon uchel? ▪ Gwella seilwaith cyfleustodau i gefnogi twf economaidd a diwallu anghenion y boblogaeth	▪ Agosrwydd at y rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus (arosfannau bws a gorsafoedd trenau); ▪ Agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol (traffyrdd a chefnffyrdd); ▪ Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol sydd eisoes yn bodoli; ▪ Agosrwydd at fannau trafferthus o ran tagfeydd; ▪ Argaeledd a chapasiti seilwaith Trafnidiaeth a Chyfleustodau (Dŵr a Charthffosiaeth); ▪ Rheoli Draenio a Chapasiti'r Safle; a ▪ Darparu Seilwaith Trafnidiaeth neu Gyfathrebu Newydd/Wedi'i Uwchraddio

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
4. Twf Economaidd Cynhwysol: cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysg a sgiliau ynghyd â mwyafu cyfraniad economaidd CNPT i Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys trwy amrywio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol	▪ Gwella mynediad at gyflogaeth a'i hamrywio, yn arbennig ar gyfer pobl leol? ▪ Darparu mynediad cyfartal i gyfleoedd cyflogaeth o safon uchel, gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ac amwynderau i bawb? ▪ Gwella mynediad at gyflogaeth i bob grŵp demograffig a chymuned, yn arbennig y rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb strwythurol a/neu anfantais sosio-economaidd? ▪ Gwella cyfleoedd ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a chadw sgiliau yn yr economi leol? ▪ Cefnogi twf sefydliadau addysg bellach ac uwch? ▪ Cyflwyno'r math cywir o ddatblygiad a gweithgareddau economaidd yn y lleoliadau hygyrch i fwyafu cystadleurwydd economaidd? ▪ Helpu i amrywio ac adfywio'r economi leol? ▪ Annog mewnfuddsoddi ac arloesedd? ▪ Hybu cydleoliad gweithgareddau economaidd, diwydiannau a defnyddiau tir synergaidd? ▪ Cefnogi llesiant cymdeithasol ac amgylcheddol yn CNPT a'r tu hwnt? ▪ Darparu'r seilwaith a'r lle gwaith sy'n ofynnol ar gyfer busnesau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli? ▪ Hyrwyddo egwyddorion adferiad gwyrdd? ▪ Cefnogi nodau Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys gwell cysylltedd digidol? ▪ Hyrwyddo defnydd a threuliant cynaliadwy o adnoddau naturiol (e.e. defnyddio Fframwaith DISRUPT)?	▪ Capasiti Cyflogaeth; ▪ Addasrwydd at ddefnydd cymysg; ▪ Agosrwydd at safleoedd cyflogaeth allweddol; ▪ Agosrwydd at Seilwaith Addysg Gynradd; ▪ Agosrwydd at Seilwaith Addysg Uwchradd; ▪ Capasiti'r Seilwaith Addysg; ▪ Darparu Seilwaith Addysg Newydd; ▪ Addasrwydd at Ddefnydd Diwydiannol/Economaidd; ▪ Defnyddiau Cymdogol ac Effeithiau Cyfuno Posibl; ac ▪ Agosrwydd at y Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd Strategol.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
5. Tai: Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy ac o safon uchel mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion lleol a nodwyd.	▪ Helpu i hwyluso darparu mwy o dai i ddiwallu ystod o anghenion a nodwyd? ▪ Gwella safon y stoc tai? ▪ Darparu stoc tai effeithlon sy'n rhyddhau yn agos at ddim allyriadau? ▪ Lleihau digartrefedd a gorlenwi? ▪ Cynyddu cymysgedd, ystod a fforddiadwyedd tai? ▪ Darparu tai sy'n annog ymdeimlad o gymuned? ▪ Cyflwyno lleiniau a safleoedd digonol sy'n ofynnol ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol? ▪ Mwyafu manteision datblygiad newydd trwy ddefnyddio lleoliadau tai priodol a dylunio da?	▪ Capasiti'r safle o ran tai; ▪ Cyflawnadwyedd tai fforddiadwy ; ▪ Addasrwydd ar gyfer defnydd cymysg; ▪ Defnyddiau cyfagos; ▪ Agosrwydd at safleoedd COMAH (rheoli peryglon damweiniau mawr); ac ▪ Agosrwydd at Safleoedd a Ddynodwyd yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (agored i bwysau adloniant).
6. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a lleiafu cysylltiad ag aer o ansawdd gwael.	▪ Cynnal neu wella ansawdd aer? ▪ Lleihau'r ansawdd aer gwael a brofir? ▪ Atal a lleihau allyriadau llygryddion niweidiol? ▪ Atal a lleihau ansawdd aer gwael sy'n agos at y lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol am resymau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, cadwraeth, pwysigrwydd ecolegol neu ddaearegol?	▪ Agosrwydd at Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA); ▪ Agosrwydd at safleoedd trafferthus o ran tagfeydd; ac ▪ Allyriadau gweithredol posibl.
7. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu	▪ Helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) o sectorau economaidd allweddol?	▪ Darparu ynni carbon isel/di-garbon ar y safle; ▪ Agosrwydd at y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus; ac

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.	■ Cefnogi lleiafu'r defnydd o ynni? ■ Cefnogi cyflwyno ynni adnewyddadwy a charbon isel a lleihau dibyniaeth ar ffynonellau nad ydynt yn adnewyddadwy? ■ Hwyluso buddsoddi mewn seilwaith carbon isel a chynaliadwy a hybu defnydd o hynny? ■ Rhoi mesurau addasu ar waith i ymdrin ag effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys risg uwch o lifogydd? ■ Hybu dylunio cynaliadwy sy'n lleiafu allyriadau GHG ac yn gallu cael ei addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd? ■ Adfer neu greu rhwydwaith o amgylcheddau naturiol i ddal carbon, gan gynnwys mewndiroedd, glaswelltiroedd, coetiroedd a sinciau 'carbon glas'?	■ Ymgorffori Mesurau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd.
8. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Cadw, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a	■ Sicrhau mesurau diogelu priodol ar gyfer amcanion cadwraeth ac integriti safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, cenedlaethol neu leol am resymau gwerth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth neu i amddiffyn rhywogaethau?	■ Agosrwydd at Safleoedd sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (ACA/AAA) ■ Agosrwydd at SoDdGA;

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.	▪ Amddiffyn ac atgyfnerthu rhywogaethau a chynefinoedd gwerthfawr? ▪ Diogelu Rhwydweithiau Ecolegol Gadarn? ▪ Diogelu rhag colli neu ddarnio cynefinoedd? ▪ Cynnal a gwella seilwaith gwyrdd trefol? ▪ Amddiffyn neu wella coed a amddiffynnir neu ardaloedd coetir pwysig? ▪ Gwella mynediad at fyd natur? ▪ Adfer achosion hysbys o halogi tir a dŵr daear? ▪ Diogelu'r tir amaethyddol o'r safon orau ac sy'n bwysig yn lleol? ▪ Diogelu a gwella adnoddau pridd pwysig? ▪ Amlinellu ystyriaeth fwy uniongyrchol o gyflwr safleoedd dynodedig neu gyfeiriad mwy uniongyrchol atynt? ▪ Darparu diffiniad cliriach o gynefinoedd a rhywogaethau 'gwerthfawr'? ▪ Darparu modd i asesu seilwaith gwyrdd?	▪ Agosrwydd at goetir hynafol; ▪ Agosrwydd at GNG; ▪ Agosrwydd at RIGS; ▪ Agosrwydd at LWS/SINC/LNR; ▪ Effeithiau Posibl ar Safleoedd Dynodedig; ▪ Presenoldeb Coed neu Berthi Pwysig neu Orchmynion Amddiffyn Coed (TPOs)? ▪ Presenoldeb Cynefinoedd a Rhywogaethau Gwerthfawr; ▪ Crynodeb Ecolegol Safonol (yn ymgorffori sgoriau CNC a gwybodaeth arall); a ▪ Dosbarthiad tir amaethyddol.
9. Dŵr a Pherygl Llifogydd: Cadw, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr	▪ Gwella ansawdd cyrff dŵr, gan helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr? ▪ Cynnal neu wella statws ecolegol a chemegol yr amgylchedd dŵr?	▪ Agosrwydd at Barthau Perygl Llifogydd; ▪ Agosrwydd at Brif Afonydd a Llynnoedd, a ▪ Chapasiti Cyfleustodau (Pŵer, Cyflenwad Dŵr a Draenio).

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
yn ochr â lleihau perygl llifogydd.	▪ Effeithio ar swm y dŵr arwyneb sy'n llifo i mewn i gyrff dŵr neu sy'n cael ei dynnu ohonynt? ▪ Darparu modd i asesu cyflwr cyrff dŵr a graddau'r addasu ffisegol (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)? ▪ Amddiffyn ac asesu nifer yr eiddo sy'n wynebu perygl llifogydd (gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfaoedd newid hinsawdd a amlinellwyd ym Map Llifogydd newydd Cymru)? ▪ Cefnogi gwelliannau i seilwaith dŵr (cyflenwad dŵr a charthffosiaeth)? ▪ Lleiafu perygl llifogydd o'r holl ffynonellau llifogydd i bob person, eiddo, seilwaith ac ased amgylcheddol? ▪ Rheoli risgiau llifogydd gweddilliol yn briodol ac osgoi risgiau llifogydd newydd? ▪ Adolygu defnydd dŵr cyfartalog fesul aelwyd? ▪ Osgoi datblygiad newydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn debygol neu liniaru posibiliadau risg o'r fath? ▪ Hybu defnydd o systemau draenio trefol cynaliadwy (SUDS) a hyrwyddo atebion seiliedig ar fyd natur er mwyn rheoli dŵr arwyneb yn well? ▪ Cynnal ac adfer prosesau afon naturiol i ddiogelu cynefinoedd afonydd a helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a sychder? ▪ Cadw adnoddau dŵr a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr?	
10. Asedau materol a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gyda'r	▪ Lleiafu'r gwastraff a gynhyrchir? ▪ Hybu egwyddorion yr economi gylchol? ▪ Trin a phrosesu gwastraff â'r effaith leiaf ar yr amgylchedd?	▪ Agosrwydd at Ganolfannau Ailgylchu Cymunedol, a'r ▪ Angen lleoliadol am fwynau.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd, a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.	▪ Lleiafu'r galw am ddeunyddiau crai a'r angen am echdynnu mwynau? ▪ Hybu'r defnydd o adnoddau lleol a lleiafu mewnforio mwynau?	
11. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Mwyafu defnydd effeithlon o dir a gwella safon dylunio i greu lleoedd gwych i bobl.	▪ Hybu pensaernïaeth a dylunio o safon uchel sy'n cryfhau unigrywiaeth leol, wedi'i gysylltu ag amddiffyn elfennau hanesyddol a diwylliannol, ac yn meithrin ymdeimlad o le? ▪ Creu a chynnal parth cyhoeddus diogel a deniadol sy'n annog pobl i gerdded a beicio?	▪ Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol neu Dir Glas, ac ▪ Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol sydd eisoes yn bodoli.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Sicrhau lleoliad, graddfa, crynswth a dwysedd priodol wrth ddatblygu? ▪ Gwneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys trwy flaenoriaethu ailddatblygu safleoedd tir llwyd a lleoli defnyddiau mae llawer o bobl yn dod drwyddynt yn agos at y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus? ▪ Lleihau cyfleoedd ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy leoliad a dyluniad datblygu newydd? ▪ Darparu parth cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel i bob defnyddiwr ar hyd yr amser? ▪ Ystyried atebion sy'n seiliedig ar fyd natur wrth greu lleoedd cynaliadwy? ▪ Creu lle ar gyfer seilwaith gwyrdd a'i integreiddio yn rhan o ddyluniad a swyddogaeth lleoedd newydd? ▪ Hwyluso mannau â chysylltiadau da ar gyfer pobl a natur?	
12. Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Iaith Gymraeg: Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol,	▪ Cynyddu argaeledd a hygyrchedd gweithgareddau/lleoliadau diwylliant, hamdden ac adloniant? ▪ Cadw, diogelu a gwella integriti, cymeriad a chyd-destun asedau hanesyddol? ▪ Diogelu a gwella priodweddau ardaloedd sydd ag arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol?	▪ Agosrwydd at Henebion Cofrestredig; ▪ Agosrwydd at Adeiladau Rhestredig; ▪ Effeithiau ar Safle Archaeolegol Pwysig; ▪ Effaith ar Safleoedd Dynodedig;

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg.	▪ Hybu ailddefnyddio sensitif ar adeiladau sy'n bwysig yn hanesyddol neu'n ddiwylliannol? ▪ Cadw adnoddau archaeolegol pwysig a'u gwella, lle bo hynny'n briodol? ▪ Diogelu'r iaith Gymraeg a chynyddu defnydd ohoni?	▪ Ailddefnyddio Adeiladau sy'n bwysig yn Hanesyddol neu'n Ddiwylliannol; a'r ▪ Effaith ar yr Iaith Gymraeg.
13. Diogelu a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol, ymdeimlad unigryw o le ac eglurder aneddiadau yn CNPT.	▪ Amddiffyn a gwella cymeriad y tirlun, nodweddion unigryw lleol ac ymdeimlad o le? ▪ Diogelu nodweddion pwysig yn y tirlun a'r treflun? ▪ Amddiffyn amwynder gweledol a golygfeydd gwerthfawr? ▪ Atal blerdwf trefol?	▪ Agosrwydd at SLA neu Arfordir Treftadaeth; ▪ Agosrwydd at Ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Ardal Wybren Dywyll; ▪ Effeithiau ar Amwynder Gweledol; ▪ Effaith Integreiddio/Cyfuno/Gwahanu Safleoedd Unigol; ac ▪ Effaith Datblygu Gofodol (gan gynnwys effaith gronnol).